Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
Welsh Parliament
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

12 Hydref 2020

Annwyl Lesley

**Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Hydref 2020, bu'r Aelodau yn trafod gohebiaeth rhwng Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA) a chi fel Gweinidog mewn perthynas â Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019, a chytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch i gael rhagor o eglurhad ar y mater hwn.

Rydym yn pryderu fod Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, yn ystod cyfnewidiadau, wedi cael gwybodaeth anghyson ynghylch eich bwriad i gynnwys atgyweirio ac ailosod gwaith draenio caeau a chefnennau llifogydd wrth ddiwygio'r 'cymalau enghreifftiol'. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro'r pwyntiau a ganlyn:

1. Ar ôl cael canlyniad eich ymgynghoriad ar Denantiaethau Amaethyddol yng Nghymru, ai eich bwriad oedd ychwanegu atgyweirio ac ailosod gwaith draenio caeau a chefnennau llifogydd fel rhwymedigaethau newydd wrth ddiwygio'r rheoliadau? Os felly, sut y cawsant eu hepgor, a pham?

2. Os nad oedd yn fwriad gennych eu hychwanegu, a allwch egluro a oedd hwn yn newid o ran sefyllfa'r polisi, neu am ryw reswm arall, a pham y rhoddwyd gwybod i Gymdeithas y Ffermwyr Tenant i ddechrau bod cynlluniau ar waith i wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r rheoliadau?

3. O ystyried pryderon parhaus Cymdeithas y Ffermwyr Tenant am y mater, a oes gennych unrhyw gynlluniau i ailedrych ar y mater hwn?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

Byddwn yn croesawu ymateb erbyn 9 Tachwedd 2020.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at George Dunn, Prif Weithredwr, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant.

Yn gywir

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.